


## 3.3. Aildefnyddio Cynnwys sy'n Bodoli

### Drychweddu Cynnwys

Mae'n bosib y bydd achlysuron pan fyddwch chi eisiau defnyddio'r un cynnwys ar amryw dudalennau - e.e mae'n bosib y bydd y manylion cyswllt yr un fath ar bob tudalen o fewn adran benodol. Gallwch greu fersiwn yr un fath o'r cynnwys, sydd wedi ei 'drychweddu' ac yn gysylltiedig, a'i gosod mewn rhan newydd. Caiff pob fersiwn sydd wedi ei drychweddu ei diweddarau pan fydd un fersiwn yn cael ei diweddarau.

1. O'r 'Site Structure' porwch i'r adran (Adran A dyweder) lle mae'r cynnwys rydych chi eisiau ei aildefnyddio wedi'i leoli. Cliciwch ar enw'r adran er mwyn ei hagar i'w golygu.
2. Bydd tudalen 'General section details' yn ymddangos. Cliciwch ar y tab 'Content'.




The screenshot shows the 'Content' tab in a CMS interface. At the top, there are tabs for 'General', 'Content', 'Content types', 'Page Layouts', and 'More'. Below the tabs, there is a section titled 'Content in this section'. On the right, there is a toggle for 'Enable automatic ordering'. Below that, there are buttons for 'Preview', 'Direct edit', 'Undo last action', 'Undo all actions', 'Bulk actions', and '+ Add content'. A dropdown menu shows 'Display 10 records' and a 'Filter' input field. The main content is a table with the following columns: Order, Name, Version, Status, Last modified, Publish date, and Actions. There are three rows of content items, each with an 'Approved' status and an 'Actions' button. The first row is 'training content' (General Content), the second is 'training metadata' (Meta Data), and the third is 'Training Contact' (Contact Block).


Order	Name	Version	Status	Last modified	Publish date	Actions	Lock	Check
+	training content <small>General Content</small>	1.0	Approved	April 21, 2023 12:22 PM	N/A	Actions	↑	☐
+	training metadata <small>Meta Data</small>	1.0	Approved	April 21, 2023 12:21 PM	N/A	Actions	↑	☐
+	Training Contact <small>Contact Block</small>	6.0	Approved	March 22, 2023 2:40 PM	N/A	Actions	↑	☐

Showing 1 to 3 of 3 entries

3. Byddwch yn gweld y cynnwys sydd wedi ei leoli yn yr adran hon ar hyn o bryd (A). Dewch o hyd i'r cynnwys rydych chi eisiau ei aildefnyddio a chliciwch ar fotwm 'Actions' ar y dde. Dewiswch 'Mirror'.




4. Bydd sgrin 'Mirror Content' yn ymddangos, lle cewch ddewis ym mha adran yr ydych chi eisiau gosod y cynnwys.




5. Dewiswch yr adran (Adran B dyweder) lle rydych chi eisiau gosod y cynnwys sydd wedi ei ddrychweddu, drwy glicio ar enw'r adran.

6. Bydd tudalen 'Content in this section' ar gyfer yr adran wreiddiol (A) yn ailymddangos, a bydd neges yn ymddangos ar waelod y sgrin i roi gwybod bod y cynnwys wedi ei ddrychweddu'n llwyddiannus.



7. Os dymunwch ailddefnyddio mwy o gynnwys o'r adran hon (A), ewch drwy'r un broses eto.
8. Er mwyn edrych ar y cynnwys ar ôl ei ddrychweddu, ewch i'r adran (B) lle gosodwyd y cynnwys a chliciwch ar ei enw. Gallwch ddychwelyd i brif dudalen 'Site Structure' er mwyn gwneud hyn neu ddefnyddio bar 'Site Structure' ar ochr chwith y sgrin.
9. Bydd tudalen 'General section details' yn ymddangos. Cliciwch ar dab 'Content'.
10. Fe ddylech chi nawr weld y cynnwys sydd wedi ei ddrychweddu yn ymddangos ar y rhestr cynnwys, a bydd symbol wrth ei ochr sy'n dangos ei fod wedi ei ddrychweddu.



The screenshot shows the 'Content in this section' interface. At the top, there are tabs for 'General', 'Content', 'Content types', 'Page Layouts', and 'More'. Below the tabs, there are buttons for 'Preview', 'Direct edit', 'Undo last action', 'Undo all actions', 'Bulk actions', and '+ Add content'. There is also a toggle for 'Enable automatic ordering'. Below these buttons, there is a 'Display' dropdown set to '10 records' and a 'Filter' input field. The main part of the interface is a table with the following columns: Order, Name, Version, Status, Last modified, Publish date, and a set of icons for actions. The table contains three entries:

Order	Name	Version	Status	Last modified	Publish date	Icons
+	training content <small>General Content</small>	1.0	Approved	April 21, 2023 12:22 PM	N/A	Actions, Up arrow, Lock, Check
+	training metadata <small>Meta Data</small>	1.0	Approved	April 21, 2023 12:21 PM	N/A	Actions, Up arrow, Lock, Check
+	Training Contact <small>Contact Block</small>	6.0	Approved	March 22, 2023 2:40 PM	N/A	Actions, Up arrow, Lock, Check

At the bottom of the table, it says 'Showing 1 to 3 of 3 entries' and there is a pagination control showing '1'.

**Sylwer:** Os hoffech chi ddrychweddu nifer o ddarnau o gynnwys ar yr un pryd, ticiwch y blychau ar ochr dde'r eitemau, yna cliciwch fotwm 'Bulk actions' a dewiswch 'Bulk mirror' o'r ddewislen.

## **Dyblygu Cynnwys**

Os byddwch chi'n creu nifer o dudalennau tebyg, mae'n bosib y byddwch yn dymuno copïo rhywfaint o'r cynnwys o un adran i'r llall cyn ei addasu. I wneud hyn, defnyddiwch y drefn uchod, gan ddewis 'Duplicate' yn hytrach na 'Mirror' o'r ddewislen 'Actions'. Yna cewch bori i'r cynnwys sydd newydd ei gopïo a'i olygu yn ôl yr angen.